**ASESIAD IECHYD – GWEITHIO AR FFYRDD CYFLYM**

Mae Swyddogion Traffig yn treulio rhan helaethaf o'u hamser gwaith ar ffyrdd cyflym, ac mae'n ofyn cyfreithiol i gyflogwyr wneud yr hyn sydd o fewn rheswm i sicrhau iechyd a diogelwch eu gweithwyr ac aelodau o'r cyhoedd all gael eu heffeithio gan eu gweithgareddau. Mae'n rhaid amddiffyn gweithwyr mewn amgylchiadau peryglus megis cefnffyrdd a ffyrdd cyflym gyda systemau gwaith diogel. Yn ogystal, mae'n rhaid iddynt feddu ar lefel o iechyd a ffitrwydd personol sy'n sicrhau fod modd iddynt gwblhau'r swydd yn effeithiol ac yn ddiogel heb unrhyw berygl arwyddocaol ychwanegol iddynt hwy eu hunain, eu cydweithwyr na defnyddwyr y ffordd. Mae gan Cyngor Gwynedd gyfrifoldeb cyfreithiol i adnabod, asesu a rheoli'r risgiau hynny a achosir gan faterion iechyd neu ffitrwydd a golyga hyn fod rhaid trefnu asesiadau iechyd o dro i dro.

Mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch wedi rhoi gwybodaeth arweiniol yn y maes hwn sy'n canolbwyntio ar amodau iechyd all beri i'r gweithiwr:-

- fod yn analluog fwyaf sydyn (er enghraifft wrth golli ymwybyddiaeth neu drwy fod yn benysgafn);
- i fethu osgoi traffig sy'n dod i'w gwrdd oherwydd anawsterau symudedd (er enghraifft cyflyrau llid y cymalau yn y coesau sy'n atal cerdded yn sydyn neu gario cyfarpar ar draws ffordd gyflym);
- ac i fethu synhwyro a gwerthuso presenoldeb, lleoliad a chyflymder traffig sy'n dod i'w gwrdd yn effeithiol (er enghraifft oherwydd golwg neu glyw gwael).

Yn gryno, mae angen i Rheolwr Tîm Swyddogion Traffig / Swyddog Traffig feddu ac iechyd corfforol da, golwg da a chlyw da.

Mae'n rhaid i unigolion gael eu hasesu cyn iddynt gychwyn gweithio ar ffyrdd cyflym, pob pum mlynedd nes cyrraedd 50 mlwydd oed, pob dwy flynedd wedi hynny a phob blwyddyn ar ôl cyrraedd 60 mlwydd oed.

Cyflawnir yr asesiad i ddechrau drwy gwblhau holiadur iechyd cyfrinachol (os yn llwyddiannus yn dilyn cyfweliad). Bydd disgwyl i weithwyr fynychu'r Uned Iechyd Galwedigaethol am brawf clyw a golwg. Pe bai unrhyw bryderon yn dod i'r fei yn atebion cwestiynau'r holiadur neu yng nghanlyniadau'r profion, bydd apwyntiad yn cael ei drefnu ar gyfer asesiad wyneb yn wyneb gyda'r Ymgynghorydd Iechyd Galwedigaethol neu'r Meddyg. Darperir tystysgrif ffitrwydd i weithio ar ffyrdd cyflym/cefnffyrdd ar ôl yr asesiad.